

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

18 Mehefin 2020
Via Zoom

Nodyn

CSCC	Nicola Britton, Swyddfa CSCC
John Lloyd Jones, Cadeirydd	Adrian Davies, Swyddfa CSCC
Tom Crick, Comisiynydd	Leri George, Swyddfa CSCC
Stephen Gifford, Comisiynydd	
Rob Irvine, Comisiynydd	For agenda item 1:
Eluned Parrott, Comisiynydd	Dewi Rowlands, Dirprwy Gyfarwyddwr Yr Is-adran Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth
Rod Smith, Comisiynydd	Alison Thomas, Pennaeth Integreiddio Polisi
Chris Sutton, Comisiynydd	Kate Clark, Ymgynghorydd: Cynllunio Strategol a Datblygu Polisi
Emma Thomas, Comisiynydd	
Ceri Doyle, Comisiynydd	
Richard Feasey, Comisiynydd	
Tom Wharf, Comisiynydd	Ymddiheriadau
	Helen Howells, Comisiynydd

1. Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Siaradodd Dewi Rowland, Alison Thomas a Kate Clark â'r Comisiwn am y ffordd y mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn datblygu, yn dilyn y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod CSCC ym mis Chwefror 2020.

Roedd y Comisiynwyr yn croesawu'r dull o osod y strategaeth o fewn fframweithiau polisi ehangach Llywodraeth Cymru a themâu trawsbynciol. Roedd y materion a drafodwyd yn cwmpasu cysylltedd digidol, data fel seilwaith, a'r angen am arloesi o ran rheoli logisteg/cludo nwyddau. Tynnodd y Comisiynwyr sylw at yr angen i

ddadansoddiad meintiol fod yn sail i ddyheadau'r strategaeth, yn enwedig o ran cysylltiadau achosol rhwng yr economi a'r seilwaith trafndiaeth.

Eglurodd y tîm trafndiaeth rôl cydbwyllgorau corfforaethol (CJCs) o ran cyflawni'r strategaeth a'r amserlen y bydd y strategaeth yn ei chwmpasu (strategaeth 20 mlynedd, gyda chynlluniau cyflawni 5 mlynedd)

Camau i'w cymryd

*Rhannu adroddiadau ar ddata agored (adroddiad NIC) gyda Kate Clark: Tom Crick
Sesiwn ddilynol cyn ymgynghori ar y strategaeth yn yr Hydref 2020: Adrian Davies*

2. Blaenoriaethau CSCC

Trafodwyd gohebiaeth ddiweddar wrth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynglyn â blaenoriaethau diwygiedig y Comisiwn yn sgil pandemig Covid 19. Cytunwyd y byddai CSCC yn ystyried opsiynau ar gyfer datblygu eu hargymhellion ar seilwaith digidol gyda'r bwriad o gyhoeddi datganiad cyhoeddus.

3. UFA

Rhoddodd Eluned Parrot, Tom Wharf ac Emma Thomas ddiweddariad am eu cyfarfod diweddar gydag arbenigwyr ar rwydwaith y Grid Cenedlaethol.

Roedd Roderick Smith wedi trafod gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru/Gogledd-orllewin Lloegr gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Mynychodd Tom Crick weithdy gyda Thrysorlys ei Mawrhydi ar ei adolygiad o'r 'Green Book'. Gofynnodd y Comisiynwyr am ragor o fanylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r adolygiad.

Cytunwyd y byddai adolygiad o'r cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf ar 15 Gorffennaf

Camau i'w cymryd

*Rhoi manylion ar sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r ymgynghoriad ar y
'Green Book': Adrian Davies.*